

Interniaeth Digwyddiadau ac Ymgyrchoedd INSPIRE

Cefndir y rôl

Mae'r Brifysgol yn cynnal nifer o ddigwyddiadau ac ymgyrchoedd i fyfyrwyr drwy'r flwyddyn academaidd sy'n codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd byw a gweithio'n gynaliadwy ac yn annog newidiadau ymddygiad cadarnhaol ymhlith ein myfyrwyr er mwyn lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd.

Rydym yn awyddus i ddatblygu'r ystod o ddigwyddiadau ac ymgyrchoedd a gynhaliwn er mwyn cynyddu nifer y myfyrwyr sydd yn ymgysylltu â chynaliadwyedd ar y campws.

Bydd yr Intern Digwyddiadau ac Ymgyrchoedd yn cefnogi'r Tîm Cyflawni Cynaliadwyedd gyda'u digwyddiadau ac ymgyrchoedd presennol megis Diffodd Popeth, Effaith Werdd, Wythnos Byddwch Wyrdd a Phythefnos Masnach Deg, ac yn trefnu ei ddigwyddiadau a'i ymgyrchoedd cynaliadwyedd ei hun i fyfyrwyr.

Beth fydd yr interniaeth yn ei olygu?

Bydd interniaid yn cwrdd â'u rheolwr llinell unwaith y mis i gynllunio a thrafod cynnydd. Bydd yr interniaid yn cael y cyfle i gydweithio ar brosiectau gwahanol ac i gymryd rolau blaenllaw mewn digwyddiadau cysylltiedig sy'n digwydd drwy'r flwyddyn. Bydd yr interniaid yn gweithio'n annibynnol a chydag interniaid eraill neu gynrychiolwyr Undeb y Myfyrwyr / staff/myfyrwyr i gwblhau prosiectau. Bydd llawer o'r gwaith yn cael ei arwain gan yr interniaid o ran amser a bydd yn gofyn am ymrwymiad o 10-15 awr y mis.

Bydd angen i chi gwblhau adroddiadau misol am y gweithgareddau a gyflawnoch ac am eich gweithgareddau arfaethedig. Mae'n rhaid i'r rhain gael eu hanfon at eich rheolwr llinell ar ddiwedd pob mis.

Manteision

- Taliad misol rheolaidd ar hyd cyfnod yr interniaeth yn seiliedig ar berfformiad
- Profiad o weithio gyda thîm ar brosiect mewn amgylchedd proffesiynol
- Gwybodaeth am dechnegau rheoli amgylcheddol mewn swyddfeydd a sefydliadau academaidd
- Ciplwg ar ddulliau newid ymddygiad effeithiol
- Profiad cyfathrebu gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau
- Sgiliau cyfathrebu rhyngpersonol
- Gallu i gynllunio gweithgareddau a'u cyflawni'n effeithiol hyd at eu gweithredu
- Sgiliau arwain
- Rheoli amser
- Rheoli prosiectau
- Sgiliau trosglwyddadwy a fydd yn helpu i'ch CV sefyll allan mewn marchnad swyddi gystadleuol.